Sylfaen
Foundation

Cynradd
Primary

Uwchradd
Secondary

Traws-gyfnod
Cross-phase

Ysgol Arbennig
Special School

EUSTORY

# CANLLAWIAU A MANYLION AR GYFER CYSTADLEUAETH DDIGIDOL 2021

## Cofrestru

Bydd angen i chi lenwi **ffurflen gais** i gofrestru eich bwriad i ymgeisio yn y gystadleuaeth.

## Cyflwyno Ceisiadau Digidol

Ar ôl i chi gofrestru byddwch yn derbyn dolen i dudalen benodol ar wefan MYDG ar gyfer lanlwytho eich cais.

Bydd y ceisiadau hyn ar ffurf **fideo** o 15 munud (ar ei hwyaf), **hyd at dair dogfen ychwanegol**, a **holiadur byr i'r athrawon** yn dweud wrth MYDG am eich prosiect; y dyddiad cyflwyno terfynol fydd **30 Ebrill 2021**.

Y rhain fydd y cyfrwng i'r beirniaid ddod i ddyfarniad am y prosiect ac felly dylent gydymffurfio â'r canllaw isod fel y bydd pob agwedd y caiff y prosiect ei feirniadu arno sylw.

## Y fideo a'r dogfennau ychwanegol

Nodwch os gwelwch yn dda nad y fideo ei hun fydd y prosiect – dylai ddweud wrth y beirniaid am y prosiect, a dylai gynnwys pethau fel lluniau a/neu ffilm o'r disgyblion yn ymwneud â'r prosiect, cyfweliadau naill ai ar gamera neu yn glywedol yn unig gyda disgyblion yn siarad am y prosiect yn eu geiriau eu hunain. I gefnogi'r fideo, gellir cyflwyno deunydd ategol ychwanegol hefyd.

Bydd yr **holiadur byr i athrawon** sy'n cyd-fynd â'r cais fideo a'r dogfennau ychwanegol yn cynnig rhagor o wybodaeth i feirniadu'r cais.

## CANLLAWIAU

Mae **pum adran** i'r canllawiau hyn:

Adran 1. Paramedrau maint a chanllawiau ar gyfer y fideo;
Adran 2. Beth y mae angen i'r fideo ymdrin ag ef;
Adran 3. Holiadur athrawon;
Adran 4. Meini prawf beirniadu;
Adran 5. Blwch ticio terfynol cyflym.

## ADRAN 1

### 1. Paramedrau maint a chanllawiau ar gyfer y fideo.

- Rhaid i'r ffilm fod yn 10-15 munud o hyd, dim hwy na 15 munud.
- Sicrhewch fod enw'r ysgol a theitl y prosiect yn ymddangos ar y dechrau.
- Pwrpas y fideo yw i ganiatáu i geisiadau'r gystadleuaeth gael eu beirniadu gan banel o feirniaid. Nid y fideo ei hun yw'r prosiect, ac ni ddyfernir unrhyw farciau am ansawdd y ffilm ei hun. Mae'r fideo am y prosiect, ac mae angen iddo gwrdd â'r meini prawf beirniadu (gweler Adran 2 y canllawiau hyn 'Beth mae angen i'r fideo ymdrin ag ef', ac Adran 4 ar gyfer y 'Meini prawf beirniadu').
- Gall y fideo ddangos disgyblion yn gweithio ar y prosiect, a gall eu dangos yn ateb cwestiynau am eu prosiect, neu gellir cynnwys recordiad clywedol yn unig o'r dysgwyr. Lle caiff dysgwyr eu dangos ar y fideo, neu lle gellir eu hadnabod, bydd yn rhaid i'r ysgol fod wedi sicrhau bod y caniatâd angenrheidiol mewn lle i gydymffurfio â rheoliadau GDPR.
- Ni ddylai mewnbwn dysgwyr i'r fideo fod wedi eu sgriptio ar eu cyfer, dylai eu cyfraniadau fod yn eu geiriau eu hunain.

# CANLLAWIAU A MANYLION AR GYFER CYSTADLEUAETH DDIGIDOL 2021

- Pan mai perfformiad, er enghraifft drama neu berfformiad cerddorol, yw allbwn terfynol y prosiect, dylid cynnwys detholiadau yn y fideo i roi'r cyd-destun a dylid darparu cyswllt i'r fersiwn llawnach os yw ar gael ar-lein, neu lwytho'r fersiwn llawn i fyny fel deunydd cefnogi ychwanegol (gweler isod).
- Lanlwythwch y fideo drwy'r dudalen cyflwyno cais ar wefan MYDG, ynghyd â'r Holiadur i Athrawon.
- Gallwch lanlwytho deunydd cefnogi ychwanegol, er enghraifft efallai fod y disgyblion wedi cynhyrchu llyfryn (mwyafswm o 3 dogfen).

## ADRAN 2

### 2. Yr hyn y mae angen i'r fideo a'r deunydd cefnogi ychwanegol ymdrin ag ef.

a. Dylai ysgolion geisio sicrhau bod y fideo yn rhoi tystiolaeth am agweddau ar eu prosiect yn y rhestr isod. CCaiff y fideo ei ddefnyddio'n bennaf i feirniadu'r cais (er y gellir llwytho deunydd atodol i fyny fel y nodir uchod). Mae'r Holiadur Athro/Athrawes cysylltiedig (gweler canllawiau ar wahân ar gyfer hyn) yn caniatáu i athrawon yn bennaf ddweud wrth y beirniaid am unrhyw beth na ellid ei ddangos ar y fideo ei hun.

Argymhellir bod y fideo yn canolbwyntio ar ac yn cael ei arwain gan y dysgwyr yn hytrach na'r athro /athrawes. Nodwch os gwelwch yn dda na ddyfernir marciau i ansawdd y fideo ei hun, ar gyfer y prosiect y mae'r marciau (gweler Adran 4 ar gyfer meini prawf beirniadu'r prosiect llawn).

Cynhwyswch o.g.y.dd. gymaint o dystiolaeth â phosibl o'r gwaith a gynhyrchwyd gan ddisgyblion yn y fideo, yn ogystal â'r disgyblion yn siarad am y prosiect yn eu geiriau eu hunain neu'n cael eu cyfweld amdano.

Agweddau i'w cynnwys yn y fideo:

i. Cyflwyniad byr i deitl y prosiect, pwy fu ynglŷn ag ef, ac am beth y mae.

ii. Ystod y dystiolaeth neu'r ffynonellau a ddefnyddiwyd gan y disgyblion wrth ymchwilio'r prosiect, ac o ble daeth y deunydd, gan gynnwys unrhyw asiantaeth allanol, megis cyfweld arbenigwyr neu aelodau teulu, neu ddefnydd o arbenigedd hyfforddwr drama a.y.b.

iii. Y dulliau y defnyddiodd dysgwyr i archwilio'u tystiolaeth, datblygu eu syniadau eu hunain a dod i'w casgliadau eu hunain, gan gynnwys faint y bu'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol, ac ar y cyd.

iv. Sut mae'r prosiect wedi gwella dealltwriaeth dysgwyr o ddehongliadau a chynrychioliadau (lle bo'n briodol).

v. Beth ddarganfu'r dysgwyr a pha gasgliadau y daethant iddynt.

vi. Pa mor ddilys oedd casgliadau'r dysgwyr.

vii. Pa mor dda fu ymwneud y dysgwyr â'r prosiect.
Effaith y prosiect ar ymwybyddiaeth dysgwyr o faterion treftadaeth lleol a/ neu Gymreig (e.e. diwylliant lleol a / neu Gymreig, y Gymraeg, chwaraeon, gwyddoniaeth a thechnoleg, hanesion menywod, hanesion plant. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, a gall prosiectau, ac maent yn aml yn gwneud hynny, ganolbwyntio ar un ardal yn unig, ac o fewn ysgol, cymuned neu gyd-destun ehangach, megis Cymru, yn unig.)

viii. Y cysylltiadau trawsgwricwlaidd rhwng meysydd dysgu a phrofiad y mae'r prosiect wedi galluogi dysgwyr i'w gwneud.

ix. Unrhyw gynlluniau sydd gan yr ysgol i ddatblygu'r prosiect ymhellach neu ei ddefnyddio'n ehangach yn y dyfodol.

Sylfaen
Foundation

Cynradd
Primary

Uwchradd
Secondary

Traws-gyfnod
Cross-phase

Ysgol Arbennig
Special School

EUSTORY

# CANLLAWIAU A MANYLION AR GYFER CYSTADLEUAETH DDIGIDOL 2021

b. Cwestiynau enghreifftiol a awgrymir. Efallai y bydd yr athro/athrawes eisiau gofyn i'r dysgwyr ateb rhai o'r rhain yn y fideo i ymdrin â'r agweddau uchod. Awgrymiadau yw'r rhain – mae rhyddid gan athrawon i ofyn eu cwestiynau eu hunain, a does dim rhaid gofyn y rhain. Dydyn ni ddim yn gofyn i chi holi'r holl gwestiynau hyn, gall athrawon ddewis pa rai (os o gwbl) y credant eu bod yn briodol ar gyfer eu prosiect, gan gymryd oedran(nau) a galluoedd y dysgwyr i ystyriaeth:

1. Beth yw teitl y prosiect ac am beth mae e?
2. Sut/pam y dewiswyd y prosiect hwn?
3. Pwy sydd wedi bod yn ymwneud ag astudio'r prosiect hwn yn yr ysgol?
4. Pwy sydd wedi bod ynglŷn â chynhyrchu'r gwaith a welir yn y fideo/ffilm?
5. Beth ydych chi fwyaf balch ohono?
6. Fuoch chi'n cyfweld unrhyw un o du allan yr ysgol, megis rhieni neu neiniau/teidiau (mam-guod/tad-cuod)?
7. Pa fath o bethau ddysgoch chi ganddyn nhw?
8. Gawsoch chi gymorth unrhyw un o du allan yr ysgol, megis hyfforddwr drama neu arbenigwr?
9. Pa rannau o'r prosiect sy'n well oherwydd hyn?
10. Dwedwch wrthon ni beth ydych chi wedi ei ddarganfod / ei ddysgu am [rhowch bwnc y prosiect]. Dechreuwch gyda'r hyn rydych chi fwyaf cyffrous yn ei adrodd wrthym.
11. Pa fathau o ffynonellau ddefnyddioch chi i ddarganfod hyn?
12. Oedd rhai ffynonellau yn fwy defnyddiol nag eraill? Pam?
13. Oeddech chi wedi gallu gwirio rhywbeth pan nad oeddech chi'n siŵr am rai o'ch ffynonellau?
14. Wnaethoch chi ddarganfod bod y stori hon (pwnc y prosiect) wedi ei hadrodd mewn un ffordd gan rai pobl ond mewn ffordd wahanol gan bobl eraill? Beth oedd eich barn am hyn? Oeddech chi'n gallu egluro pam fod hyn?
15. Sut penderfynoch chi beth/pwy i gredu a pha ffynonellau i'w defnyddio, i'ch helpu i ddod i gasgliadau?
16. Fuoch chi'n gweithio mewn grwpiau yn bennaf ar y prosiect? Neu fuoch chi'n gweithio ar eich pen eich hun yn bennaf?
17. Pa gasgliadau ddaethoch chi a'r dysgwyr eraill iddynt?
18. Ydych chi'n meddwl i chi ddod i gasgliadau synhwyrol a da?
19. Oedd gan bawb yn eich grŵp neu'r dosbarth ddiddordeb yn y prosiect ac a oeddent wedi eu cyffroi ganddo?
20. Beth oedd y peth rhyfeddaf, neu'r peth a oedd o fwyaf o ddiddordeb i chi? Pam?
21. Ydych chi'n credu eich bod yn deall mwy am *[fel bo'n briodol - diwylliant lleol a / neu Gymreig, y Gymraeg, chwaraeon, gwyddoniaeth a thechnoleg, hanesion menywod, hanesion plant]* yn sgil gwneud y prosiect?
22. Pa sgiliau ydych chi'n meddwl eich bod wedi eu datblygu trwy astudio'r prosiect hwn? Er enghraifft, ydych chi wedi dysgu mwy nag a wyddech chi cyn hynny am ysgrifennu barddoniaeth, neu am drin data, neu am ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol?
23. Oedd y prosiect hwn yn cysylltu â phynciau a meysydd eraill yn ychwanegol at hanes? Er enghraifft, cerddoriaeth neu ddrama neu wyddoniaeth?
24. Oeddech chi wedi gallu rhannu'r prosiect â dysgwyr eraill yn yr ysgol? Sut gwnaethoch chi hynny?
25. Ydych chi'n meddwl y dylai pobl eraill yng Nghymru – plant mewn ysgolion a /neu oedolion – wybod mwy am y prosiect hwn? Pam?

Anogir athrawon i ofyn unrhyw gwestiynau ychwanegol i annog dysgwyr i roi cymaint o wybodaeth â phosibl, yn enwedig gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Gellid cynnwys, er enghraifft: 'Dwedwch fwy wrtho i am', neu 'Pam ydych chi'n meddwl hynna?' neu 'Beth oeddech chi'n ei feddwl am ...?', neu 'Sut oedd X yn gwneud i chi deimlo?'

# CANLLAWIAU A MANYLION AR GYFER CYSTADLEUAETH DDIGIDOL 2021

## ADRAN 3

### 3. Holiadur Athrawon

Mae'r Holiadur Athrawon byr hwn (ffurflen ar-lein ar y dudalen cyflwyno cais) yn cyd-fynd â'r fideo. Pwrpas yr holiadur yw galluogi athrawon i gyflwyno unrhyw wybodaeth i'r panel beirniadu am unrhyw beth nad sy'n cael sylw dyladwy yn y fideo.

| | |
|---|---|
| **Enw'r ysgol:** | |
| **Teitl y prosiect:** | |

**Cwestiynau**

1. Faint o ddysgwyr gymerodd ran, a faint oedd eu hoedran?
2. Ydy hwn yn brosiect ysgol gyfan, un dosbarth, clwb a.y.b.?
3. Pa agweddau ar y prosiect, neu'r dulliau a ddefnyddiwyd, yr ydych chi'n eu hystyried yn wreiddiol neu'n arloesol?
4. Sut mae'r prosiect wedi cefnogi a datblygu Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru h.y.
   ~ Fel dysgwyr uchelgeisiol, galluog?
   ~ Fel unigolion iach, hyderus?
   ~ Fel cyfranwyr mentrus, creadigol?
   ~ Fel dinasyddion egwyddorol, gwybodus?
5. Ydy'r prosiect ar gael ar-lein? E.e. ar wefan yr ysgol? Neu a oes gan y prosiect ei wefan ei hun? Rhannwch y dolenni os gwelwch yn dda.
6. Ystyriwch y prosiect a gwblhawyd fel cyfanwaith yma. Tua pha ganran ohono sy'n ganlyniad gwaith disgyblion wedi ei gyfarwyddo gan athro, a thua pha ganran sy'n ganlyniad dysgu annibynnol y disgyblion?
7. Nodwch yma unrhyw beth arall yr hoffech dynnu sylw'r beirniaid ato, o.g.y.dd.

## ADRAN 4

### 4. Meini prawf beirniadu

Bydd prosiectau'n cael eu beirniadu o bell yn ystod Gwanwyn 2021. Gan na fydd beirniaid yn ymweld ag ysgolion mae'r meini prawf beirniadu wedi'u haddasu. Bydd y beirniaid yn aelodau o'r pwyllgor neu'n arbenigwyr profiadol a gall cynrychiolwyr y noddwyr hefyd gymryd rhan.

Caiff ceisiadau eu marcio allan o gant am yr elfennau canlynol:

1. **Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Chynnwys y Prosiect:**

**a) Faint o gynnwys y prosiect sy'n canolbwyntio ar faterion treftadaeth arwyddocaol yng Nghymru.Bydd y canlynol yn cael ei ystyried (fel bo'n briodol):**

- I ba raddau y mae'r disgyblion wedi caffael **gwybodaeth fanwl a chywir**;
- **Arwyddocâd** y cyfraniad a wnaethpwyd i **ymwybyddiaeth disgyblion o faterion treftadaeth lleol a/neu Gymreig**. *(er enghraifft: diwylliant lleol a/neu Cymreig, y Gymraeg, chwaraeon, gwyddoniaeth a thechnoleg, hanesion menywod, hanesion plant. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, a gall prosiectau, ac maent yn aml yn gwneud hynny, ganolbwyntio ar un ardal yn unig, ac o fewn ysgol, cymuned neu gyd-destun ehangach, megis Cymru, yn unig.)*

Cyfran y marc o fewn yr elfen: 20

Sylfaen
Foundation

Cynradd
Primary

Uwchradd
Secondary

Traws-gyfnod
Cross-phase

Ysgol Arbennig
Special School

EUSTORY

# CANLLAWIAU A MANYLION AR GYFER CYSTADLEUAETH DDIGIDOL 2021

**b) Yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafodd y disgyblion trwy gyfrwng y prosiect.**

- I ba raddau y mae'r disgyblion wedi caffael **gwybodaeth fanwl a chywir**;
- I ba raddau y mae disgyblion yn **cymhwyso'r wybodaeth** wrth esbonio, a gwneud cysylltiadau o fewn y prosiect ac i agweddau ehangach y dreftadaeth Gymreig;
- Pa mor dda y mae'r prosiect wedi gwella dealltwriaeth y dysgwyr o **ddehongliadau a chynrychioliadau** (lle bo'n briodol).

Cyfran y marc o fewn yr elfen: 25

## 2. Datblygu Sgiliau

**a) Sgiliau ymholi.**

- Ystod, mathau, ansawdd a pherthnasedd y **dystiolaeth** a ystyriwyd;
- Ystod a phriodoldeb y **cwestiynau** a holwyd **a'r ymholiadau** a archwiliwyd gan y dysgwyr;
- I ba raddau mae dysgwyr wedi datblygu eu **syniadau a'u barnau eu hunain a'r dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt**;
- Dilysrwydd a chymhlethdod (priodol i'w hoedran) **y penderfyniadau a'r casgliadau** y daethpwyd iddynt;
- Faint o **ymwneud fu gan asiantaeth allanol** i'r prosiect (e.e. arbenigwyr allanol) a sut y defnyddiodd y dysgwyr hyn.

Cyfran y marc o fewn yr elfen: 25

**b) Datblygu sgiliau ehangach.**

Ystyriwch o.g.y.dd. (lle bo'n briodol) sut y mae'r prosiect wedi cefnogi a datblygu sgiliau'r dysgwyr:

- Fel dysgwyr **uchelgeisiol, galluog**;
- Fel unigolion **iach, hyderus**;
- Fel cyfranwyr **mentrus, creadigol**;
- Fel dinasyddion **egwyddorol, gwybodus**;
- O weithio'n **annibynnol** ac o **gydweithio**;
- **Ar draws y cwricwlwm** trwy gysylltu â meysydd fel cerddoriaeth, rhifedd a llythrennedd (er enghraifft);
- Mewn **TGCh**.

Cyfran y marc o fewn yr elfen: 10

## 3. Effaith

**Effaith y prosiect ar ddysgwyr.**

- Pa mor dda mae dysgwyr wedi **ymwneud** â'r prosiect;
- I ba raddau y mae'r prosiect wedi **ysbrydoli, ysgogi a chyffroi'r** dysgwyr (ac eraill os yn briodol);
- Y tebygrwydd y caiff y prosiect ei **ddatblygu ymhellach** neu ei ddefnyddio gan yr ysgol / y gymuned yn y dyfodol.

Cyfran y marc o fewn yr elfen: 20

## 5. Blwch ticio terfynol cyflym

| Eitem | Dyddiad cyflwyno | Ticiwch |
|---|---|---|
| Ffurflen gofrestru | | ☐ |
| Fideo/ ffilm (15 mun. ar yr hwyaf) | Y rhain i gyd erbyn 30 Ebrill 2021 | ☐ |
| Holiadur athro/athrawes | | ☐ |
| Deunydd Cefnogi Ychwanegol | | ☐ |